

Astudiaeth Achos

Project Llongddrylliad y *Royal Charter* - CA2

Partneriaethau: Cadw, Oriol Ynys Môn, RNLI, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Aelodau'r Tîm: Erin Robinson, Cadw

Ysgolion: Ysgol Llangaffo, Ysgol Moelfre, Ysgol Syr Thomas Jones

Disgrifiad o'r astudiaeth

Treuliodd tair ysgol ar Ynys Môn fisoedd yn astudio llongddrylliad lleol, y *Royal Charter*, mewn partneriaeth ar y cyd â Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Y *Royal Charter* oedd un o longau cyflymaf y byd yn y 19eg ganrif, gan hwylio i Awstralia ac yn ôl mewn llai na 60 diwrnod. Ar ei ffordd yn ôl i Lerpwl, wedi stopio yn Iwerddon, aeth y llong i drafferthion yn 'Storm Fawr 1859' – neu 'Storm y *Royal Charter*' – a chafodd ei dryllio ar arfordir Moelfre, yng ngogledd-ddwyrain Ynys Môn. Bu farw'r holl ferched a phlant oedd ar fwrdd y llong. Achubwyd ychydig o'r dynion, diolch i'r llongwr o Malta, Joseph Rodgers, a glymodd raff o gwmpas ei ganol a neidio i'r môr, gan greu system pwli o'r llong i'r creigiau gyda chymorth trigolion Moelfre.

Bu ysgolion cynradd Moelfre a Llangaffo ac ysgol uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch yn cymryd rhan yn elfen addysgiadol y project Llongddrylliad. Bu dosbarthiadau yn ymweld â mynwent Sant Allgo i weld beddi'r rhai fu farw yn nhrychineb y *Royal Charter*. Aethant hefyd i ganolfan RNLI Gwylfan Moelfre i ddysgu am ddiogelwch ar y môr a gweld arteffactau, lluniau a gwybodaeth o longddrylliad y *Royal Charter*. Aeth disgyblion hefyd i Oriol Ynys Môn ar gyfer gweithdy '*Royal Charter*' yr amgueddfa, gan ymchwilio i'r arteffactau sydd i'w gweld yno. Daeth deifwyr proffesiynol sydd wedi deifio yn safle'r llongddrylliad i'r ysgolion hefyd. Bu'r deifiwr lleol Peter Day yn Ysgol Llangaffo ac Ysgol Moelfre gyda'r Parchedig Ken Wilson – mae'r ddau ohonynt hefyd yn gofalu am eglwys Sant Allgo. Bu'r deifwyr a'r awduron Chris a Lesley Holden, sydd wedi cyhoeddi llyfr am y llongddrylliad, yn ymweld ag Ysgol Syr Thomas Jones. Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu diwedd blwyddyn gyntaf y project yng Nghanolfan RNLI Gwylfan Moelfre.

Mae llawer iawn o ymchwil yr ysgolion wedi'i wneud ar wefan Casgliad y Werin, amgueddfa ar-lein Cymru, lle gellir gweld lluniau o arteffactau aur a gwrthrychau bob dydd a ganfuwyd ar y safle.

Gweithgareddau Dosbarth

Llongdrylliad:

- Chwiliwch am wrthrych o'r llongdrylliad ar wefan Casgliad y Werin (gallwch ddefnyddio'r [Cysylltiadau Dysgu - Llongdrylliadau](#) i'ch helpu i ddod o hyd i'r eitemau perthnasol): Pa liw ydi o, pa ddefnydd, beth ydi o, beth oedd ei ddiben? Pwy ydych chi'n meddwl oedd yn berchen ar hwn, a sut berson oedden nhw? Ifanc, hen, cyfoethog, tlawd? Gwnewch lun o'r person gyda'r gwrthrych ac ysgrifennwch frawddeg yn eu disgrifio.
- Ysgrifennwch weddi gan y Parchedig Hughes ar gyfer teuluoedd a dioddefwyr y llongdrylliad. I gyd-fynd â'r weddi, gwnewch lun neu chwiliwch am lun o fedd neu o'r Parchedig yn yr eglwys.
- Dyluniwch dudalen flaen papur newydd yn adrodd ar y llongdrylliad. Beth fyddai'r pennawd? Beth fyddai'r is-benawdau? Chwiliwch neu gwnewch luniau ac ychwanegu capsiynau. Disgrifiwch beth ddigwyddodd i'r llong, pwy gafodd ei achub a sut, a beth ddigwyddodd wedyn.
- Dyluniwch boster ar gyfer y llong cyn iddi hwylio am Awstralia. Beth oedd yn gwneud hon yn llong arbennig (60 diwrnod, record byd ac ati) a pham fod pobl eisiau mynd i Awstralia (aur ac ati).
- Gwaith Llythrennedd Bl. 3 a 4: Rhowch frawddeg yr un i bob golygfa o'r stori. Yna tynnwch lun o'r olygfa, beth mae'r frawddeg yn disgrifio. Ychwanegwch at y frawddeg i greu paragraff efo mwy o ddisgrifiadau, gan ddefnyddio ansoddeiriau ac ati.
- Gwnewch linell amser ar y bwrdd gwyn ynghylch beth ddigwyddodd a phryd.
- Ar ôl cwblhau'r gwaith, gwnewch linell amser ddigidol / 'e-lyfr' gyda'r gwaith. Gall y plant ychwanegu lluniau o wefan Casgliad y Werin a lluniau wedi'u sganio o'u gwaith eu hunain, ffotograffau o waith maes ac ychwanegu testun a chlipiau sain o'r hanes yn cael ei adrodd.
- Ysgrifennwch ddrama ynghylch y *Royal Charter* ar ei ffordd yn ôl i Lerpwl.
- Ysgrifennwch ddadl rhwng y Capten, llongwr, teithiwr a'r perchnogion ynghylch a ddylent fynd yn eu blaenau i Lerpwl neu geisio osgoi'r storm.

Y Storm Fawr:

- Astudiwch adroddiadau llygad-dyst gan amrywiaeth o bobl gafodd eu heffeithio gan y storm – ffermwr, seryddwr, gohebydd, teulu. Rhowch yr adroddiadau llygad-dyst hyn mewn trefn gronolegol.
- Pawb i gymryd un adroddiad a thanlinellu pob berf/enw/ansoddair/gair nad ydynt yn ddeall.
- Gwnewch linell amser ar y bwrdd gwyn ynghylch beth ddigwyddodd a phryd.
- Chwarae Rhan – pawb i fod yn 'llygad-dyst' ac ysgrifennu tair brawddeg ynghylch beth ydych chi'n a) glywed, b) gweld a c) teimlo am y Storm Fawr, a thynnwch lun.
- Trafodaeth – dau 'llygad-dyst' i drafod eu teimladau am y Storm Fawr, os oedd yn beth da neu ddrwg, e.e. Ffermwr wedi colli ei holl gnydau, seryddwr wedi gweld 'digwyddiad anhygoel'.

Ffrâm Amser Chwefror – Gorffennaf 2013

27 Chwefror, taith Ysgol Llangaffo (eglwys Sant Allgo i weld beddau'r dioddefwyr, Canolfan Gwylfan i weld arteffactau, gweithgaredd a thaith badau achub, Oriol Ynys Môn am sgwrs, fideo a gweithgareddau ynghylch casgliad *Royal Charter*)

5 a 6 Mawrth, taith Ysgol Moelfre a gweithgareddau dosbarth a sgwrs gan Peter Day, deifiwr.

12 Mawrth, cyflwyniad a sgwrs yn Ysgol Syr Thomas Jones gan Chris a Lesley Holdren, deifwyr ac awduron llyfr y *Royal Charter*

13, 20 Mawrth a 16 Mai, gweithgareddau dosbarth Ysgol Llangaffo

19 Mawrth, gweithgareddau dosbarth yn Ysgol Syr Thomas Jones

5 Mehefin, taith Ysgol Syr Thomas Jones (taith i Ganolfan Gwylfan am sgwrs ynghylch delweddau ac arteffactau *Royal Charter*, cerdded at gofeb *Royal Charter* ac ymweld â chasgliad *Royal Charter* yn Oriol Ynys Môn)

16 Gorffennaf, prynhawn cyflwyniadau, Canolfan Gwylfan RNLI a disgyblion yn gweithio ar arddangosfa yn y ganolfan ymwelwyr ar gyfer misoedd yr haf.

Cyfranwyr

Ysgol Llangaffo – 29 disgybl, 2 athro (+2 ar y daith maes)

Ysgol Moelfre – 30 disgybl, 1 athro (+3 ar y daith maes)

Ysgol Syr Thomas Jones – 50 disgybl, 1 athro (+3 ar y daith maes)

Eraill:

Daeth tri deifiwr ac offeiriad plwyf Sant Allgo i siarad gyda'r plant/rhoi cyflwyniadau

Bu dau o staff/gwirfoddolwyr RNLI yn siarad gyda'r disgyblion yng Nghanolfan Seawatch yn ystod eu hymweliad.

Bu un aelod staff yn siarad gyda disgyblion Oriol Ynys Môn, yn ogystal â fideo am y *Royal Charter* a gweithgareddau/taflenni gwaith am y casgliad arteffactau o'r llongddrylliad.

Cyraeddiadau

- Mae disgyblion wedi dewis astudio llongddrylliadau eraill fel gwaith cartref.
- Cystadlodd nifer o ddisgyblion Ysgol Llangaffo yn Eisteddfod yr Urdd gyda gwaith celf am y *Royal Charter*, gan ennill gwobrau.
- Gwnaed mwy o waith ymchwil ar y project heb bresenoldeb Cadw, gan gynnwys posteri, gwaith celf, modelau replica ac ati.
- Gwnaeth Ysgol Llangaffo fwy o waith ymchwil a darganfod fod Sant Allgo (sydd â'r eglwys lle claddwyd dioddefwyr y *Royal Charter* wedi'i henwi ar ei ôl) yn frawd i Sant Gaffo, roddodd ei enw i bentref yr ysgol ac eglwys y plwyf.
- Mae arddangosfa o waith y disgyblion nawr i'w gweld yng Nghanolfan RNLI Gwylfan Moelfre.
- Mae gweithio ar y project hwn wedi annog o leiaf pedwar disgybl y Fagloriaeth Gymreig o Ysgol Syr Thomas Jones i seilio eu projectau Ymchwiliad Unigol ar hanes a threftadaeth leol.


e-bost gan athro:

"Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi ar y project llongddrylliadau, rwyf wedi mwynhau'n fawr ac mae'r plant wedi mwynhau hefyd. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn un o'u prif atgofion o Ysgol Llangaffo."


Datblygiadau Pellach

- Gyda gwaith paratoi, gallai'r project hwn weithio'n dda heb fod angen aelod o Cadw yn bresennol ar gyfer gweithgareddau. Fodd bynnag, rhaid i gyflwyniad cychwynnol y project (yn cynnwys nodiadau clir ynghylch sawl un o'r gweithgareddau all gysylltu â phynciau traws-gwricwlaidd) gael ei roi gan swyddog project brwdfrydig sy'n gallu hyrwyddo'r pwnc fel un gwerth chweil i'w astudio.
- Gellid casglu rhestr o fanylion cyswllt cymdeithasau lleol er mwyn ei rhannu ag athrawon ar gyfer adnoddau da a phobl i siarad efo'r disgyblion – roedd cael pobl wahanol i siarad gyda'r dosbarthiadau yn gweithio'n dda ac yn creu cynnwrf am y project.
- Hefyd, gallai defnyddio'r project at gyfer gweithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol weithio'n dda, gan gynnwys cystadlaethau Urdd ac ati.
- Wrth weithio gyda Casgliad y Werin, roedd hi'n haws defnyddio ystafell gyfrifiaduron benodol gyda chyfrifiadur yr un neu i bob pâr o ddisgyblion. Os oedd yr athrawon wedi creu proffil yn barod cyn y sesiwn, roedd hyn yn arbed amser.

Engbreifftau o waith disgyblion CA2 ar y project llongdrylliadau:




Disgyblion yn Oriel Ynys Môn.



Tafleni gwaith disgyblion o Oriel Ynys Môn.



Disgyblion yn edrych ar fedd llongwr.



Darlun – 'My sight through a telescope'.

**Enghreifftiau o waith disgyblion CA2 ar y project
llongdrylliadau:**



Darlun o'r *Royal Charter* yn ystod Storm Fawr 1859.



Collage o'r *Royal Charter* yn ystod Storm Fawr 1859.